Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Michelle Owen**

**Powys**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/06/2023

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad hwn yn fawr. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus ac yn gyfforddus. Maent yn chwarae'n rhydd, yn fodlon eu byd, ac yn fwy na pharod i gyfleu eu hanghenion. Mae'r plant yn hyderus wrth ddewis y teganau a'r gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt o blith yr amrywiaeth ragorol sydd ar gael iddynt. Mae cydberthnasau cadarnhaol a hoffus iawn rhwng y plant, a rhwng y plant a'r gwarchodwr plant.

Mae amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau ar waith gan y gwarchodwr plant, sy'n hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar ac yn llwyddo i ddiwallu anghenion y plant yn gyson. Mae'n cynnig amrywiaeth ragorol o gyfleoedd chwarae rhydd a gweithgareddau wedi'u cynllunio sy'n ennyn diddordeb y plant. Gall y plant gymryd rhan ynddynt yn annibynnol neu â chymorth.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae’r safle'n groesawgar, yn gartrefol ac wedi'i drefnu'n dda. Mae asesiadau risg a gwiriadau diogelwch manwl ar waith. Mae'r darparwr plant yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau atyniadol, sy'n ymestyn chwarae'r plant ac yn annog eu datblygiad.

Caiff y gwasanaeth ei reoli'n eithriadol o dda. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau buddiol a gaiff eu rhannu â'r rhieni. Mae'r cyfathrebu â'r rhieni yn effeithiol iawn. Mae'r cysylltiadau â'r gymuned yn dda.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn gwybod ceir ymateb i'w hymdrechion llafar a'u hymdrechion dieiriau i gyfathrebu. Mae'r plant yn symud o gwmpas yn hyderus, gan archwilio a dilyn eu diddordebau. Maent yn cael cyfleoedd da iawn i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored, cawsant eu hannog i ddewis yr hyn yr oeddent am chwarae ag ef.

Mae'r plant wrth eu bodd ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Drwy gydol eu hamser yn y lleoliad, gwelsom fod y plant yn hapus, yn gwenu ac yn chwerthin. Roedd y plant yn siarad yn hyderus ag ymwelwyr. Caiff eu hanghenion unigol eu diwallu, a chaiff eu harferion eu cefnogi. Mae'n amlwg bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac maent yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol. Er enghraifft, cael eu hunain yn barod i fynd i gasglu'r plant eraill.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson ysgogol. Mae'r plant yn cydweithredu'n frwdfrydig ac yn cael eu hysbrydoli a'u cymell. Er enghraifft, gwnaeth plentyn iau gopïo plentyn hŷn wrth chwarae yn yr awyr agored ar y ffrâm ddringo, gan wenu a chwerthin gyda'i gilydd. Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd a gwnaethant gynnwys ymwelwyr yn eu chwarae, gan ddangos ymdeimlad eithriadol o hyder. Mae plant o wahanol grwpiau oedran yn aml yn chwarae gyda'i gilydd, ac yn chwarae gyda'r gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, yn llawn bywyd ac yn llwyr ymroi i'r cyfleoedd chwarae a dysgu a gynigir. Clywsom y plant yn mwmian iddyn nhw eu hunain wrth iddynt chwarae, ac roeddent yn canolbwyntio am gryn dipyn o amser wrth fwrw ati â'r gweithgaredd a ddewiswyd ganddynt. Maent yn mwynhau cyfleoedd diddorol ac ysgogol dan do ac yn yr awyr agored yn frwdfrydig a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel. Mae gan y plant ryddid sylweddol i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn symud rhwng yr ystafelloedd ac o amgylch y dodrefn a'r adnoddau yn hyderus ac yn ddiogel.

Mae gan y plant ddigon o hunangymhelliant i ddechrau eu cyfleoedd chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau, gan fod pwyslais ar weithgareddau dan arweiniad y plentyn. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad ardderchog o gyflawniad a lefelau uchel o hunan-barch. Maent yn awyddus iawn i ddangos yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud neu i siarad am hynny. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, roeddent yn cael eu hannog i geisio gwisgo eu hesgidiau eu hunain neu i geisio cael gafael ar adnoddau yn annibynnol cyn cael cynnig cymorth.

| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| --- | --- |

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau pwrpasol a thrylwyr ar waith, sy'n hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant. Mae ganddi hyfforddiant diogelu cyfredol, ac mae ganddi weithdrefnau cadarn ar waith er mwyn diogelu'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo iechyd y plant yn llwyddiannus ac mae'n blaenoriaethu llesiant a diogelwch y plant. Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau clir ar waith wrth fynd â'r plant allan yn y car neu wrth eu casglu o'r ysgol, sy'n sicrhau mai eu diogelwch yw'r brif flaenoriaeth. Mae ganddi dystysgrif cymorth cyntaf cyfredol. Mae systemau da ar waith i gofnodi damweiniau/digwyddiadau ac wrth roi meddyginiaethau. Mae arferion hylendid effeithiol a chadarn ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i olchi eu dwylo ac mae'n diheintio'n rheolaidd. Caiff y plant eu helpu i wneud hynny hefyd.

Mae rheoli ymddygiad yn un o gryfderau'r gwarchodwr plant. Mae'n canmol y plant am eu hymddygiad da ac yn annog rhyngweithio cadarnhaol yn gyson. Mae'n creu gemau hwyliog sy'n annog y plant i ymateb mewn ffordd gadarnhaol.  Gwelsom y gwarchodwr plant yn annog y plant i rannu'n briodol â'i gilydd, gan atgoffa'r plant yn bwyllog i gymryd eu tro. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu â'r plant yn llwyddiannus, gan hyrwyddo eu dysgu a'u hunanbarch ar yr un pryd. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd chwarae blêr, fe'i clywsom yn annog y plant ac yn canmol eu hymdrechion.  Mae'n modelu'r iaith sy'n gysylltiedig â moesau da, ac yn gweithredu fel model rôl da bob amser.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar ac yn rhoi gofal ymatebol. Mae'n ymwybodol o anghenion datblygiadol ac emosiynol unigol y plant. Mae'n adnabod y plant a'u teuluoedd yn eithriadol o dda ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o ofynion ac arferion unigol pob plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn ymdrechu i ddeall a chyfathrebu â'r plant sy'n cael gofal ganddi. Mae'n rhyngweithio â'r plant mewn modd cadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'n trin y plant fel estyniad i'w huned deuluol ei hun. Mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau chwarae rhydd, ac yn defnyddio cyfleoedd achlysurol i ymestyn cyfleoedd i drafod a dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, ac o ganlyniad mae'r plant yn datblygu eu dychymyg am gyfnodau estynedig. Mae'r cynllunio yn thematig ac mae'r gwarchodwr plant yn olrhain cynnydd y plant yn effeithiol.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae ganddi fesurau effeithiol ar waith i sicrhau ei bod yn dilyn ac yn gweithredu ei chyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol effeithiol a chywir, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Cymerir camau gweithredu mewn ymateb iddynt. Mae'n rhoi trefniadau glanhau rheolaidd ar waith sy'n adlewyrchu ei harferion hylendid da ac mae ei harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal gwiriadau diogelwch ac ymarferion tân rheolaidd, ac mae dogfennaeth ar gael i'w harchwilio.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dda dan do ac yn yr awyr agored er mwyn i'r plant allu symud o gwmpas yn hwylus. Mae'n sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion pob plentyn a'i fod yn galluogi'r rhan fwyaf ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial. Er enghraifft, caiff adnoddau eu storio ar lefelau isel, mewn droriau, blychau neu ar silffoedd agored sy'n golygu y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y defnyddir unrhyw ardal chwarae awyr agored mor aml â phosibl, a gwelsom y plant yn mwynhau cyfleoedd o'r fath. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar o ansawdd da sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Caiff y rhain eu cynnal a'u cadw'n dda, eu harchwilio a'u glanhau'n rheolaidd a'u storio'n briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig adnoddau a theganau sy'n ysgogi diddordeb a dychymyg y plant, gan sicrhau bod cydbwysedd da o adnoddau wedi'u gwneud o blastig ac o ddeunyddiau naturiol. Mae'n defnyddio arddangosiadau, llyfrau, a gweithgareddau i hybu'r Gymraeg ym mhob rhan o'r amgylchedd. Mae ardal chwarae awyr agored sylweddol sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac sy'n cynnig cyfleoedd chwarae difyr i'r plant.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth yn eithriadol o dda ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n drefnus iawn ac yn cadw'r holl gofnodion gofynnol. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n cynnig disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir i'r rhai hynny sy'n defnyddio'r lleoliad. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o bolisïau buddiol, hawdd eu darllen ar waith, ac mae'n eu rhannu â'r rhieni. Mae gan y gwarchodwr plant gymwysterau addas ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth. Mae ganddi ddiwylliant cadarn o ddatblygiad proffesiynol parhaus ac mae wedi cwblhau sawl cwrs hyfforddiant ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gwasanaeth ac yn myfyrio arno, ac yn llunio adroddiad pwrpasol ar ansawdd y gofal. Mae'n gofyn i'r rhieni a'r plant am wybodaeth i'w helpu i werthuso ei gwasanaeth ac mae'n rhoi cyfle iddynt wneud awgrymiadau o ran sut i wella'r gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn ystyried yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y lleoliad ac yn targedu meysydd i'w gwella yn glir.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a gwarchodwyr plant proffesiynol eraill. Mae'n cysylltu â'r rhieni yn rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy negeseuon llafar preifat, a thrwy bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o'i chymuned leol a'r amgylchedd lleol, gan ymgymryd â theithiau ysgogol a diddorol a fydd yn helpu'r plant i ddatblygu ac i ddysgu. Er enghraifft, drwy ddefnyddio'r parc lleol a thrwy fynd am dro drwy'r ardal wledig leol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/08/2023